**Cyn seren sebon i serennu yn seremoni troi goleuadau Nadolig ymlaen**



Bydd y cyn-seren o raglen ' Coronation Street ' a Strictly Come Dancing, Catherine Tyldesley yn ymweld â’r Rhyl i droi goleuadau Nadolig y dref ar ddydd Sadwrn 30ain Tachwedd, gan ddod â hud yr ŵyl i'r dref.

Yn ymuno â hi yn y seremoni fydd Maer y Rhyl, y Cynghorydd Ellie Chard a chast Snow White, y pantomeim yn Theatr Pafiliwn y Rhyl eleni.

Mae'n debyg bod Catherine yn fwyaf adnabyddus am ei rôl fel Eva Price ar opera sebon ITV Coronation Street o 2011 i 2018. Yn fwyaf diweddar, ymddangosodd yng nghyfres gomedi'r BBC ‘Scarborough’, sy'n dilyn grŵp o bobl leol o dref glan môr Gogledd Swydd Efrog, wrth iddynt lywio bywyd, cariad a chyfeillgarwch.




Ym mis Medi eleni, ymunodd Catherine â'i chyd-gystadleuwyr o enwogion i gymryd rhan yn y 17eg gyfres o Strictly Come Dancing.

Bydd nifer o berfformwyr hefyd yn cymryd rhan yn y digwyddiad yn y Rhyl gan gynnwys y ddeuawd bop leol MavMac a'r band poblogaidd The Cavernites, teyrnged i'r Beatles-y blynyddoedd teithiol.

Bydd cast y pantomeim yn diddanu'r torfeydd wrth ochr perfformwyr stryd, cerddwyr ar stiltiau a'r bws chwarae.

Bydd adloniant y prynhawn yn cychwyn ar y Stryd Fawr am 1pm, gyda’r goleuadau yn cael eu troi ymlaen a thân gwyllt ar ddiwedd y prynhawn tua 5pm.

Trefnir y digwyddiad gan Gyngor Sir Ddinbych, gyda chymorth ariannol gan Gyngor Tref y Rhyl.

Dywedodd y Cynghorydd Hugh Evans OBE, Arweinydd Sir Ddinbych: "Flwyddyn ar ôl blwyddyn mae seremoni troi ymlaen goleuadau Nadolig yn y Rhyl wedi tynnu'r torfeydd i lawr ac mae'n ffordd wych o roi hwb i dymor yr ŵyl. Mae digwyddiad eleni hefyd yn argoeli i fod yn wych a bydd yr enwogion yn diddanu'r torfeydd y disgwylir iddynt ymgynnull yn y Stryd Fawr.




"Mae'r gefnogaeth a ddangoswyd gan y gymuned leol yn y gorffennol wedi bod yn eithriadol ac rydym yn gobeithio y bydd busnesau'r dref yn elwa o gael ymwelwyr ychwanegol i ganol y dref, ar y diwrnod ac yn y cyfnod cyn y Nadolig".

Dywedodd y Cynghorydd Ellie Chard, Maer y Rhyl: "Fe fydd Catherine yn cyfnewid sglein o'r peli gliter yn Strictly am oleuadau Nadolig lliwgar y Rhyl. Yn gyn-ffefryn o Coronoation Street, allwn ni ddim aros i groesawu Catherine i'n stryd fawr. Rydym hefyd yn edrych ymlaen at weld ffefrynnau lleol yn perfformio gan eu bod bob amser yn boblogaidd iawn. Unwaith eto, mae'r Rhyl wedi cael digwyddiad gwych i edrych ymlaen ato, ac mae'n argoeli i fod yn ddigwyddiad gwych arall. "

**Nodyn i olygyddion:** Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â'r tîm cyfathrebu, ar 01824 706222